# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 06.07.11

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Evie M. Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr W. Tudor Owen, Ieuan Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**1. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – GREEK TAVERNA, 12-14 FFORDD CAERGYBI, BANGOR**

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ar ran Greek Taverna, 12-14 Ffordd Caergybi, Bangor:** Mr Vasilis Politis (Ymgeisydd)

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Mr John Martin (Cyngor Dinas Bangor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr June a Keith Marshall (aelodau lleol)

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Greek Taverna, 12-14 Ffordd Caergybi, Bangor i wyro trwydded yr eiddo er ymestyn yr oriau a ganiateir ar gyfer cerddoriaeth wedi ei recordio, dawnsio, cyflenwi bwyd poeth a chyflenwi alcohol rhwng 11.00 a 02.00 pob diwrnod o'r wythnos, gyda'r eiddo'n agored i'r cyhoedd rhwng 08.00 a 02.30 pob diwrnod o'r wythnos.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais gydag amodau. Nid oedd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru na'r Adran Safonau Masnach unrhyw sylwadau ar y cais. 'Roedd yr Adran Iechyd Amgylchedd yn gwrthwynebu rhan o'r cais ac yn awgrymu gosod amodau ar y drwydded. 'Roedd Cyngor Dinas Bangor yn gwrthwynebu'r cais a derbyniwyd llythyrau gan drigolion cyfagos hefyd yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

ii. Gwahoddwyd yr Ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

iii. Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau

iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

vii Cafodd yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd yr ymgeisydd y cyflwynwyd y cais, oherwydd ar rai achlysuron pan gynhelir nosweithiau cerddorol yn yr eiddo, 'roedd galw gan rhai o'r cwsmeriaid i gario ymlaen tu hwnt i'r oriau a ganiateir ar hyn o bryd sef 01.00. 'Roedd y cais i ymestyn yr oriau tan 02.00 bob dirwnod o'r wythnos ond rhagwelai na fydd angen iddo agor tan hynny bob diwrnod o'r wythnos, yn ddibynnol ar nifer y cwsmeriaid.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac adroddodd Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu nad oedd gan yr heddlu dystiolaeth ddigonol i wrthwynebu'r cais. Fodd bynnag 'roedd ganddo dystiolaeth am ddau gŵyn ym Mawrth 2011 pan oedd "DJ" yn perfformio yn yr eiddo. 'Roedd hwnnw dan awdurdod rhybudd digwyddiad tros dro, a chaniatwyd yr adeg hynny i'r eiddo fod yn agored tan 02.00. Cyfeiriodd hefyd at gŵyn arall a dderbyniwyd ar 1 Ebrill 2011 yn cyfeirio at lefelau sŵn o'r eiddo yn hwyr yn y nos. 'Roedd yn ymwybodol am gŵyn arall a gyfeiriwyd i sylw'r Adran Iechyd Amgylchedd ar 4 Mehefin 2011 ac 'roedd hwn eto ar noson pan oedd "DJ" yn perfformio yn yr eiddo. Nododd i'r ymgeisydd gytuno na chynhelir nosweithiau "DJ" yn yr eiddo o hyn ymlaen. Yn dilyn trafodaeth gyda'r ymgeisydd, awgrymodd gynnwys yr amodau ychwanegol y cyfeirir atynt yn ei lythyr dyddiedig 21 Mehefin 2011 at yr Awdurdod Trwyddedu ar y drwydded. Nid oedd gan yr ymgeisydd wrthwynebiad i'r amodau hyn.

Nid oedd y Swyddog Iechyd Amgylchedd yn bresennol yn y cyfarfod, ond derbyniwyd sylwadau ysgrifenedig ganddi a oedd yn nodi er i'r ymgeisydd gytuno i beidio â chynnal nosweithiau "DJ", 'roedd yn gwrthwynebu'r cais am gerddoriaeth wedi ei recordio tu allan i'r eiddo, sef paragraff F o'r cais. Nid oedd gwrthwynebiad i gynnal cerddoriaeth o fewn yr eiddo, nac ychwaith i chwarae cerddoriaeth acwstig tu allan, ac argymhellodd bod yr amodau ychwanegol parthed rheoli sŵn yn cael eu gosod ar y drwydded.

Manteisiodd y gwrthwynebydd oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Byddai agor yr eiddo tan 02.30 yn cynyddu'r sŵn a'r aflonyddwch yn yr ardal gan bobl a cherbydau'n mynd a dod i'r eiddo yn hwyr yn y nos ac yn fuan yn y bore.
- Byddai'n effeithio ar fwynderau trigolion yn Ffordd Caergybi gan greu achosion o drosedd ac anhrefn ac annog ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan unigolion a fyddai wedi cael eu heffeithio gan or-yfed.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro trwydded Greek Taverna, 12-14 Ffordd Caergybi, Bangor fel a ganlyn –**

**a) Caniatau cerddoriaeth wedi ei recordio (paragraff F); Perfformiadau dawns (paragraff G); Darparu cyfleusterau ar gyfer chwarae cerddoriaeth (paragraff I); Cyfleusterau ar gyfer dawnsio (paragraff J) a chyflenwi alcohol (paragraff M) rhwng 11.00 a 02.00 bob diwrnod o'r wythnos.**

**b) Caniatau cyflenwi bwyd poeth yn hwyr y nos (paragraff L) rhwng 23.00 a 02.00 bob diwrnod o'r wythnos.**

**c) Caniatau i'r eiddo fod yn agored i'r cyhoedd dan baragraff O rhwng 08.00 a 02.30 bob diwrnod o'r wythnos.**

**ch) Bydd unrhyw unigolyn sy'n arfer gweithgaredd diogelwch (fel y'i diffinnir ym mharagraff 2(1)(a) o Atodlen 2 Deddf Diwydiant Diogelwch Preifat 2001) wedi cael ei drwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch. Bydd unigolyn o'r fath yn cael ei**

**gyflogi yn yr eiddo ar ôl 22.00 hyd nes y byddai'r busnes yn cau bob dydd Gwener a Sadwrn.**
**d) Bydd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn cadw cofrestr gydnabyddedig gan yr heddlu a'r awdurdod lleol o'r holl staff drysau a gyflogir yn yr eiddo. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion o amser dechrau a gorffen y gwaith, enw a rhif trwydded ADD y person a gyflogir (gan gynnwys enw'r cwmni sy'n eu cyflogi os yn berthnasol). Cedwir y gofrestr yn barhaol ar yr eiddo ac ar gael i'w harchwilio ar gais yr heddlu neu'r awdurdod lleol. Wedi cwblhau'r gofrestr, fe'i cedwir yn yr eiddo am o leiaf blwyddyn o'r dyddiad y'i cwblhawyd, ac am y cyfnod hwnnw bydd ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu'r awdurdod lleol.**
**dd) Gosod yr amodau canlynol a argymhellwyd gan y Swyddog Iechyd Amgylchedd -**
**i) Ni chaniateir cynnydd yn y lefel LAeq 15 munud na'r lefel LAeq 15 munud yn y bandiau amledd trydedd wythfed 31.5, 63 a 125Hz o fewn i unrhyw eiddo preswyl (wedi ei fesur gyda ffenestri'r eiddo ar agor neu ar gau) o ganlyniad i sŵn adloniant yn deillio o'r eiddo trwyddedig. I bwrpas yr amod hon mae LAeq wedi ei ddiffinio yn BS4142:1997.**
**ii) Er mwyn arbed sŵn a dirgrynant adael yr eiddo trwyddedig, bydd drysau a ffenestri'r adeilad yn cael eu cadw ar gau yn ystod yr adloniant.**
**iii) Os, wedi cyhoeddi'r drwydded hon bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn tystiolaeth nad oes cydymffurfiaeth ag amod (i), bydd perchennog yr eiddo'n gwneud y canlynol –**

- **Gwneud unrhyw waith ynysu/arbed sŵn er mwyn sicrhau bod yr eiddo'n cydymffurfio ag amod sŵn a/neu**
- **Gosod dyfais rheoli sŵn yn yr ystafell/oedd lle y cynhelir yr adloniant. Bydd y ddyfais wedi ei sefydlu i dorri cyflenwad trydan unrhyw system sain neu wrthsefyll cynnydd mewn lefel sŵn uwchlaw'r hyn a sefydlwyd fel uchafswm caniataeedig.**

**iv) Unwaith bydd lefel ar ddyfais rheoli sŵn yn cael ei sefydlu, nid yw'r lefel yma i'w newid heb ymgynghoriad â Swyddog Iechyd Amgylchedd Llygredd, Cyngor Gwynedd.**
**v) Bydd drysau'r cyntedd yn cael eu cadw ar gau heblaw i sicrhau mynediad neu ymadawiad o'r eiddo.**
**vi) Ni chaniateir gwaredu gwastraff poteli neu ganiau i gynhwysydd tu allan i'r adeilad trwyddedig rhwng yr oriau 22.00-08.00. Cedwir y poteli o fewn libart yr eiddo mewn sgip neu bin gyda chaead.**
**vii) Gosodir arwyddion clir a dealladwy wrth bob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid sy'n gadael yr adeilad i ystyried trigolion lleol, yn arbennig yn eu hannog i beidio â gweiddi, clepian drysau cerbydau na chanu cyrn cerbydau.**
**viii) Mae'n ddyletswydd i ddaliwr trwydded personol yr eiddo, y goruchwyliwr eiddo dynodedig neu'r goruchwyliwr drysau i fonitro ymddygiad yr unigolion sy'n gadael yr eiddo i ysmygu a'u hatgoffa o'u cyfrifoldeb cyhoeddus lle sydd angen.**
**ix) Caniateir cerddoriaeth acwstig yn unig tu allan i'r eiddo.**
**x) Nid yw arogleuon annymunol o'r eiddo i achosi niwsans i eiddo cyfagos.**
**xi) Gosodir system awyriant ac echdyniant i arbed arogleuon annymunol. Bydd system o'r fath yn cael ei chynnal a'i chadw'n rheolaidd.**
**xii) Nid yw unrhyw oleuo mewnol nac allanol sydd i'r pwrpas o ddiogelwch staff neu ddiogelwch yr eiddo i'w gosod mewn modd sy'n achosi niwsans i unrhyw eiddo gerllaw.**
**xiii) Nid yw goleuo allanol sy'n ymwneud â hysbysebu'r eiddo, adloniant neu weithgaredd yn ymwneud â'r eiddo i fod o gryfder allai achosi niwsans i unrhyw eiddo gerllaw.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.20am